### ❖ Daeth Bachgen Bach i Fethle'm

Daeth bachgen bach i Fethle'm
Â Duwdod yn ei wedd,
Ac uwch ei lety alltud
Disgleiriodd golau hedd.
A dyna'r unig olau
All achub daear Duw
Rhag rhyfel sêr y gofod
A thranc y ddynol ryw.

Daeth bachgen bach i Fethle'm
Â mwynder yn ei lais,
Ac er holl ddicter Herod
Agorodd ffordd ddi-drais.
A hon yw traffordd cymod
A chytgord, er mor ddrud.
'Ewyllys da i ddynion,
Tangnefedd i'r holl fyd.'

Daeth bachgen bach i Fethle'm
A thegwch yn ei law,
Ac nid oedd ynddi undim
A allai beri braw.
A hon yw'r llaw allweddol
Os y'm am wneud ein rhan
I ymlid anghyfiawnder
Ac ymgeleddu'r gwan.

Daeth bachgen bach i Fethle'm
A theyrnas wrth ei droed,
Ac ynddi ceir gelynion
Ynghyd yn cadw oed.
Mae'r llewpart brith a'r afar
Yn gorwedd yn gytûn
A'r llew a'r oen diniwed
Yn pori megis un.

Daeth bachgen bach i Fethle'm
A dedfryd yn ei drem,
Ac yng nghyflawnder amser
Llewyrchodd seren lem.
A chyda'i llafnau miniog
Aeth hanes dyn yn ddau,
Ac nid oes dewis mwyach
Ond rhwng y gwir a'r gau.

Daeth bachgen bach i Fethle'm
I breseb llety tlawd,
Ac ato daeth bugeiliaid
A doethion ar eu rhawd.
Bydd rhaid i ninnau blygu
I'r Iesu, os am fyw
A 'goryd ein trysorau
A'i dderbyn ef yn llyw.

**D. Gerald Jones**